

![schoop]

**Cofiwch lawrlwytho 'Schoop' i'ch ffonau dros y Nadolig. Mae pob cyfathrebiad trwy Schoop erbyn hyn. Os oes broblem derbyn 'notifications' cysylltwch â Schoop yn uniongyrchol os gwelwch yn dda. Côd yr Ysgol yw 10459**

***Please remember to download 'Schoop' on to your phones over the holidays. All communications are done through Schoop by now. If you have a problem receiving the notifications, please contact Schoop directly. School's code—10459.***

| Blwyddyn Ysgol / *School Year* 2018/19 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tymor / *Term* | Dechrau / Start | Hanner tymor yn dechrau<br>Half term starts | Hanner tymor yn gorffen<br>Half term ends | Tymor yn gorffen<br>Term ends |
| Hydref/ Autumn | 3 Medi/Sept 2018 | 29 Hyd/Oct 2018 | 2 Tach/Nov 2018 | 21 Rhag/Dec 2018 |
| Gwanwyn / Spring | 7 Ion/Jan 2019 | 25 Chwe/Feb 2019 | 1 Maw/March 2019 | 12 Ebr/April 2019 |
| Haf /Summer | 29 Ebr/April 2019 | 27 Mai/May 2019 | 31 Mai/May 2019 | 22 Gor/July 2019 |
| Gwyl y Banc—6ed o Fai / May day Bank holiday 6th of May 2019 (School Closed) | | | | |
| Diwrnodau HMS/InSeT days: 3.9.18, 26.10.18, 5.11.18, 7.1.19, 22.7.19 | | | | |



YSGOL GYMRAEG
Ifor Hael

**Tymor yr Hydref 2018 *Autumn Term***

Cylchlythyr Tymhorol Rhif 28
*Termly Newsletter No 28*


**Ysgol Gymraeg Ifor Hael**
**Clos Meon**
**Betws**
**Casnewydd**
**NP20 7DU**
**Ffôn: 01633 414694**
**E-bost: ysgifo@newport.gov.uk**


@IforHael

**Llwybr Llwyddiant**

# Newyddion Diweddaraf

- Mae Rhodri Harris wedi bod yn gweithio'n galed gyda'n disgyblion ar ein cyngerdd i ddathlu Pen-blwydd yr Ysgol yn 10! Perfformiodd ein plant yn wych yr wythnos hon.
- Mynychodd chwech o ddisgyblion Blwyddyn 6 gynhadledd 'Siarad Allan' yn trafod materion lles.
- Derbyniodd pob dosbarth weithdai tenis gan Tenis Cymru
- Cystadlodd ein tîm pêl-droed yn erbyn leol yng Nghasnewydd mewn twrnamaint.
- Daeth Asiant Ystâd i mewn i siarad â'n Blwyddyn 3 a 4 am ei gwaith. Roedd hyn yn cyd-daro â'u thema 'Strwythurau ac Adeiladau'.
- Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 6 â stiwdio deledu yng Nghaerdydd er mwyn ffilmio'r rhaglen 'Pigo dy Drwyn'
- Mynychodd disgyblion Blwyddyn 5 Llangrannog am daith breswyl penwythnos ac roedd eu hymddygiad yn eithriadol. Roedd gan bawb amser gwych.
- Cynhaliodd Jo o Chwaraeon yr Urdd weithdai pêl-droed ar gyfer ein disgyblion CA2.
- Cynhaliodd Dr Mary Nichollas gwasanaeth ar gyfer ein disgyblion CA2.
- Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 2 a 5 weithdy ar ddiogelwch tân gan y Gwasanaeth Tân a chawsant gyfle i edrych ar yr offer ar y peiriant tân.
- Cynhaliodd Menter Casnewydd weithdy 'gemau' ar gyfer ein disgyblion Blwyddyn 4 a 5.
- Mynychodd disgyblion Blwyddyn 6 'Crucial Crew' sy'n codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ee cerdded ger llinellau trên, gorsafoedd trydan, mwg, cyffuriau ag ati.
- Mynychodd tri o'n pwyllgor ECO weithdy ECO yng Nghasnewydd
- Derbyniodd disgyblion CA2 sioe 'Owain Glyndŵr' gan 'Mewn Cymeriad'.
- Cynhaliwyd wasanaeth Cynhaeaf hyfryd gyda'r holl ddisgyblion a chyflwynwyd bwyd i SOLAS a oedd yn ddiolchgar iawn i'r ysgol. Anerchodd Mrs Elin Maher y disgyblion.
- Ymwelodd Cathy Farr, awdures plant â'i chi i ysbrydoli ein disgyblion i ddefnyddio eu dychymyg i ysgrifennu.
- Cystadlodd ein tîm pêl-rwyd yn nhwrnamaint Ysgolion Casnewydd a daethon nhw'n gyntaf! Roedd yr ysgol gyfan wrth ei bodd gyda'u perfformiad.
- Ymwelodd rhiant â disgyblion Blwyddyn 4 a rhannodd ei phrofiadau o'i hamser yn India fel rhan o'u hastudiaethau.
- Cafodd ein Criw Cymraeg eu cyfweld fel rhan o ddilysiad gwobr arian Siarter Iaith.
- Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 6 â chanolfan antur awyr agored Gilwern am 2 noson.
- Darlledodd Radio Cymru eu sioe fore yn gynnar gydag Aled Hughes yn gynnar ym mis Tachwedd. Parhaodd â'i 'Bawen Lawen' (Pump Uchel) gyda'i ffrind, Pudsey, gyda'n disgyblion ac yna aeth ymlaen i ymweld ag ysgolion eraill ar draws De Cymru.
- Ymwelodd Aelod Cabinet yr ALl, Gail Giles a Deborah Weston â'r ysgol i drafod cynnydd a heriau'r Ysgol.
- Cododd cymuned yr ysgol £223.55 enfawr ar gyfer Plant mewn Angen.
- Cystadlodd ein tîm gymnasteg yng nghystadleuaeth yr Urdd yng Nghwm Rhymni.



# Latest News

- *Rhodri Harris has been working with pupils on our celebratory 10th Birthday Christmas concert with the fantastic performance this week.*
- *Six of our Year 6 pupils attended a 'Speak Out' conference discussing wellbeing.*
- *All classes received tennis workshops from Tennis Wales*
- *Our football team competed against other Newport school's in a tournament.*
- *An Estate Agent came in to talk to our Year 3 and 4 about her work. This coincided with their 'Structures and Buildings' theme.*
- *Year 6 pupils visited TV studios in Cardiff for filming of 'Pigo dy Drwyn'*
- *Year 5 pupils attended Llangrannog for a weekend residential trip and their behaviour was exceptional. All had a fantastic time.*
- *Jo from Chwaraeon Urdd ran football workshops for our KS2 pupils.*
- *Dr Mary Nichollas held an assembly for our KS2 pupils.*
- *Year 2 and 5 pupils received a workshop on fire safety from the Fire Service and they also had chance to look at the equipment on the fire engine.*
- *Menter Casnewydd ran a 'games' workshop for our Year 4 and 5 pupils.*
- *Year 6 pupils attended 'Crucial Crew' which raises awareness of safety eg walking near train lines, electricity stations, smoke, drugs etc.*
- *Three of our ECO committee attended an ECO workshop in Newport*
- *KS2 pupils received an 'Owain Glyndwr' show by 'Mewn Cymeriad'.*
- *All pupils performed in a wonderful Harvest festival and food donations were presented to SOLAS who were very grateful to the school. Mrs Elin Maher addressed the pupils.*
- *Cathy Farr, a children's author visited with her wolfhound to inspire our pupils to use their imaginations to write.*
- *Our netball team competed in Newport Schools tournament and came first! The whole school was delighted with their performance.*
- *Year 4 pupils were visited by a parent who shared her experiences of her time in India as part of their studies.*
- *Our Criw Cymraeg were interviewed as part of Siarter Iaith's silver award validation.*
- *Year 6 pupils visited Gilwern's outdoor adventure centre for 2 nights.*
- *Radio Cymru broadcast their early morning show with Aled Hughes early November. He continued his 'Pawen Lawen' (High Five) with his friend, Pudsey, with our pupils and then went on to visit other schools across South Wales.*
- *The LA's Cabinet Member, Gail Giles and Deborah Weston made a visit to the school to discuss progress and our challenges.*
- *The school's community raised a massive £223.55 for Children in Need.*
- *Our gymnastic team competed in the Urdd's competition in Cwm Rhymni.*

**Siarter Iaith**

**Daeth dilyswyr allanol i'r ysgol i drafod ein targedau Siarter Iaith a'n cynnydd hyd yn hyn. Cafodd yr ymatebion argraff dda arnynt ac fe enillodd yr ysgol 'Arian' am ei waith gwych. Llongyfarchiadau i'r Criw Cymraeg ac i Mrs Hoey am yr holl waith caled.**

*External verifiors came to the school to discuss our Siarter Iaith targets and our progress to date. They were suitably impressed by the responses and the school was awarded 'Silver' for its fantastic work. Congratulations to the Criw Cymraeg and to Mrs Hoey for all their hard work.*





Ysgol Gymraeg Ifor Hael

Pwy sy'n gallu credu bod yr ysgol wedi bod ar agor ers 10 mlynedd? Mae'r amser wedi hedfan ac mae Ifor Hael wedi tyfu'n ysgol ofalgar, hyfryd gyda phartneriaethau cryf a thîm gwych yn gweithio'n ddiflino i roi'r gorau i'ch plant. Rydym yn byw yn ôl ein gweledigaeth o greu amgylchedd hapus, parchus ac rydym yn falch o weld ein disgyblion yn tyfu i fod yn ddinasyddion cytbwys. Edrychwn ymlaen at y degau o flynyddoedd sydd i ddod!

**Who can believe that the school has been open for 10 years? The time has flown and Ifor Hael has grown into a wonderfully caring school with strong partnerships and a fantastic team working tirelessly to give the best for your children. We live by our vision of creating a happy, respectful environment and are proud to see our pupils grow up as well-rounded, well-mannered citizens of the future. We look forward to the tens of years to come!**

**Dyddiadau Pwysig /**
***Important Dates:***

HMS / **INSET:**
**7.1.19**

Dechrau Tymor/***Start of Term*** **8.1.19**

Dim Clybiau w/d/***No Clubs: w/b*** **8.1.19**

Hanner Tymor/ ***Half Term***
**25.2.19 – 1.3.19**

Diwedd Tymor / ***End of Term*** **12.4.19**

# Newyddion Dosbarthiadau / *Class News*



**Mili Malwen**

**Rydym wedi bod wrth ein boddau yn dod i adnabod ein holl ffrindiau newydd yn nosbarth Mili Malwen ers mis Medi. Rydym wedi dysgu llawer am deuluoedd a diddordebau'n gilydd ac rydym wedi setlo'n dda. Dechreuom y flwyddyn yn dysgu am ein cyrff a'n synhwyrau gan archwilio gwahanol weadau a blasu gwahanol ffrwythau. Cawsom lawer o hwyl yn dysgu am y dathliad Diwali a chreom lampau Diva a phatrymau Rangoli. Dysgom am anifeiliaid yr Hydref a'r hyn sydd yn digwydd i ddail y coed gan gynnwys gweithgareddau lliw a chyfateb maint a siâp. Rydyn ni wedi bod yn dysgu caneuon a rhigymau di-ri ar lawr y dosbarth ac ymarfer ein sgiliau mudol mân drwy sesiynau 'Tango'r Toes'! Mae'r Nadolig wedi cyrraedd gyda bang yn y dosbarth ac rydym yn hynod o brysur yn creu cardiau, addurniadau a chalendrau. Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

*We have loved getting to know all of our new friends in Mili Malwen class since September. We've learned lots about each other's families and interests. We started off the year learning about our bodies and our senses, examining different textures and tasting unusual fruits. We had lots of fun learning about the celebration, Diwali, making Diva lamps and Rangoli patterns. We learnt about animals we might see in the Autumn and looked at what happens to the leaves on the trees including activities corresponding colour, shape and size. We have been learning lots of new songs and rhymes and practising our fine motor skills through our 'Disco Dough' sessions. Christmas has hit the class with a bang and we've been very busy making cards, calendars and decorations. We would like to wish everyone a Merry Christmas and a Happy New Year!*



**Elfed Eliffant**



**Dyma ni ar ddiwedd ein tymor cyntaf yn nosbarth Elfed Eliffant! Mae pawb wedi ymgartrefu erbyn hyn a wedi mwynhau creu ffrindiau newydd. Dechreuon ni'r tymor gyda'r thema 'Dyma Fi' gan ddysgu llawer am ein hun, ein teulu a'n ffrindiau. Rydym wedi cael llawer o hwyl a sbri tu allan yn cymryd rhan mewn sesiynau ysgol goedwig. Edrychwn ymlaen at dymor nesaf llawn hwyl a sbri!**



*Here we are at the end of our first term in dosbarth Elfed Eliffant! Everyone has now settled and enjoyed making new friends. We started the term with the topic 'Marvellous Me', learning a lot about ourselves, our family and friends. We've had lots of fun outdoors taking part in forest school sessions. We look forward to the next fun and exciting term!*



**Sali Sws**

**Waw! - i ble'r aeth y tymor? Ar ôl ymgartrefu yn Nosbarth Sali Sws dechreuom ein tymor gyda thema 'F am Fi!'. Gan ddysgu llawer am ein hun, gan gynnwys, darllen a dysgu stori bwysig am Ellie Eog er mwyn gwybod sut i fod yn ddysgwyr gwych; trafod ein hawliau; archwilio am bopeth sy'n ymwneud a'r corff megis ein esgyrn; a'r synhwyrau a sut i gadw'n iach ac yn ddiogel. Yn anffodus torrodd Miss Watts asgwrn yn ei throed, felly rydym wedi bod yn ddiolchgar iawn i Miss Rainford am ein dysgu yn ystod yr amser yma. Ar ôl tymor prysur a chamu i'r llwyfan wythnos hwn ar gyfer ein sioe Nadolig a Phen-blwydd Ifor Hael yn 10, rydym yn haeddu bach o saib i ymlacio. Hoffai ddosbarth Sali Sws ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Mwynhewch y dathliadau!**



*Wow! – where did the term go? After settling down in Dosbarth Sali Sws we started the term with a brand new theme 'M for Me!'. We've learned so much about ourselves by reading and discussing a story about Ellie Eog, which has helped us learn how to be great learners; discussing our rights and investigating everything about our bodies including our bones, senses and how to keep healthy and safe. Unfortunately, Miss Watts broke a bone in her foot however we were very lucky to have Miss Rainford to teach us.*
*After a very busy term and a fantastic Christmas show and Birthday party for Ifor Hael this week we all deserve a nice break to relax. Dosbarth Sali Sws would like to wish you all a Merry Christmas and a Happy New Year! Enjoy the celebrations!*

**Bili Broga**



**Mae hi wedi bod yn dymor prysur ym mlwyddyn 2. Mae'r holl ddisgyblion wedi ymgartrefu'n dda ac yn mwynhau eu hamser yn nosbarth Bili Broga. Y tymor yma, ein thema ni oedd "F am fi." Rydyn wedi edrych ar ein hunain, ein dosbarth a'r pethau sy'n bwysig i ni a'r hyn sy'n ein cadw ni'n iach. Rydym wedi dysgu am yr hyn sy'n ein gwneud yn arbennig, y bobl o'n cwmpas a sut maent yn ein helpu, gan gynnwys ymweliad gan y dynion tân. Mae'r Hydref wedi bod yn gyfle i fynd allan a dathlu'r hydref a'i holl liwiau, anifeiliaid, synau a golygfeydd. Diolch i chi am ymuno yn ein parti cadw'n iach ac roeddem wrth ein boddau yn gweld yr holl neiniau a theidiau. Mwynhewch y gwyliau a Nadolig Llawen!**



*It has been a busy term in year 2. All pupils have settled in well and are enjoying their time in Dosbarth Bili Broga. This term we have been looking at "M for Me" from ourselves, our class and the things that are important to us and what keeps us healthy. We have learnt about what makes us special, the people around us and how they help us which included a visit from the fireman. Autumn term has been a chance to go outdoors and celebrate the autumn and all its colours, animals, sounds and sights. Thank you for supporting our healthy party and we thoroughly enjoyed welcoming the grandparents to school. Enjoy the holidays and Merry Christmas!*






**Dewi Sant**

**Dyma ni ar ddiwedd ein tymor cyntaf ym mlwyddyn 3! Rydym wedi bod yn brysur iawn ac wedi cael llawer o hwyl! Dechreuom ni'r tymor gyda phrosiect cyffroes wrth astudio Chembakolli; roedd angen i ni adeiladu tai ar gyfer y bobl sydd yn byw yno. Defnyddiom ein cyllid i brynu'r adnoddau ac yna creu tai oedd yn gallu gwrthsefyll yr amodau tywydd gwahanol. Yna fe wnaethom ni fwynhau dysgu am y 'Sneaglegator' sydd yng Nghoedwig Law Patagonia. Ydych chi wedi clywed amdano? Rydym wedi creu creaduriaid ein hun ers hynny ac mi fyddwn wrth ein boddau yn eu trafod gyda chi. Rydym wedi mwynhau'r tymor yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at fwy o wersi a gweithgareddau hwyl tymor nesaf. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**



*Here we are at the end of our first term in year 3! We have been very busy and have had lots of fun! We started off our term with an exciting project about Chembakolli; we had to build houses for the people who live there. We used our budget to buy resources and then had to build houses that were able to withstand the different weather conditions. Then we enjoyed learning about the Sneaglegators that live in the Patagonian Rainforest. Have you heard about them? We have created our own creatures and we would love to tell you all about them. We've enjoyed our first term very much and are looking forward to more fun lessons and activities next term. Merry Christmas and a Happy New Year to you all!*



**Owain Glyndŵr**

**Dechreuon y tymor gyda'n prosiect cyffroes am Chembakolli. Roedd angen adnabod ac arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau cyn cynllunio a chreu modelau o dai dau lawr newydd ar gyfer pobl Chembakolli. Mae sawl ymwelwr wedi bod atom tymor yma: daeth asiantaeth gwerthu tai i siarad am sut i hysbysebu a gwerthu cartrefi newydd, a rhannodd Mam Ava hanes ei hamser yn India. Roeddem wrth ein boddau yn adeiladu awyrennau papur a mesur pa mor bell oedden yn teithio ar gyfer ein prosiect 'Awyrennau anhygoel'. Rydyn yn gobeithio eich bod wedi darllen ein blogiau amdanyn nhw ar Hwb! Ydych wedi clywed am y 'Sneaglegator' sy'n byw yng nghoedwig law Patagonia? Gofynnwch i ni ei drafod ef, a'r creaduriaid newydd diddorol rydyn wedi dychmygu!**



*We got off to a flying start this year with our Chembakolli project. This saw us exploring lots of materials then designing and building models of new, two floor homes for the people of Chembakolli. We've had several visitors to dosbarth Owain Glyndwr this term, including an estate agent who came to talk to us about selling houses and Ava's Mum who told us about her experiences living in India. We all enjoyed building paper aeroplanes and measuring how far they flew during our 'Amazing Aeroplanes' project. We hope you've read our Blogs about it on Hwb! Have you heard of the Sneaglegator who lives in the Patagonian Rainforest? Ask us all about it, and the new fascinating creatures we've been imagining!*



**William Morgan**

**Wel am dymor! Rydym wedi bod yn brysur iawn yn nosbarth William Morgan. Ar ddechrau'r tymor edrychom ar ein hawliau ni fel plant, a sut mae ein hawliau ni yng Nghymru yn wahanol i hawliau plant eraill ar draws y byd. Cawsom gyfle i greu fideo er mwyn annog pobl i roi arian i elusen er mwyn sicrhau bod plant tramor yn derbyn dŵr glân. Mae ein gwaith ar y goedwig glaw wedi bod yn ddiddorol iawn, a chawsom ymweliad gan 'Maint Cymru' er mwyn dysgu ni am goedwigoedd glaw ar draws y byd. Rydym wedi blino'n lan erbyn hyn, ond rydym yn gyffrous iawn i ddechrau tymor newydd o weithgareddau hwyl ar ôl y gwyliau. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

*What a term! We have been very busy in William Morgan. At the start of the term we looked at our rights as children, and how our rights are different from other children all over the world. We had the opportunity to create a video to persuade people to give money to a charity so that children can access clean water from their homes. Our work on the rain forests has been very interesting, and we were lucky to receive a visit from 'Maint Cymru' who taught us about rain forests around the world. This term has flown and we are all looking forward to a new term in 2018. Merry Christmas and a Happy New Year to you all!*



**Betsi Cadwaladr**

**Wel! Am dymor prysur. Ar ddechrau'r flwyddyn ysgrifennom lythyron i ni ein hunain i agor ar ddiwedd y flwyddyn i weld faint rydym yn newid o fewn y flwyddyn - rydym yn edrych ymlaen at eu hagor yn yr Haf. Ein thema am y tymor oedd Hawliau a buom yn brysur iawn yn dysgu am hawliau pobl wahanol, gan gynnwys ein hawliau ni fel plant yng Nghymru. Dysgom am ddiffyg hawliau plant yn Sierra Leone, Syria a Lebanon ac aethom ati i greu a golygu fideo apêl ar gyfer elusen o ganlyniad i'r gwaith. Wrth ddysgu am ddiffyg hawliau pobl ac anifeiliaid ar draws y byd, penderfynom ysgrifennu araith yn efelychu araith enwog Martin Luther King Jr. Mwynheuon ein hymweliad i Gilwern yn fawr iawn - roedd y bwyd yn fendigedig a'r gweithgareddau'n cynnig sialens anhygoel! Rhai o'n hoff weithgareddau oedd dringo'r wal ddringo, cyfeiriannu a gweithgareddau tîm. Yn ein gwersi Gwyddoniaeth gwnaethom archwiliad i faint o siwgr sydd yn ein hoff fyrbrydau - cawsom andros o sioc! Rhai o'n hoff dasgau oedd arbrofi gyda chreu weiren sip ein hunain a chreu clipiau sain yn dangos datgoedwigo a hiliaeth. Roedd ein gweithdy ar goedwigoedd glaw yn wych - dysgom am gyd-ddibyniaeth pethau sy'n byw yno! Dydyn ni methu credu bod ein Nadolig olaf yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael wedi cyrraedd - bw-hw! Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu llawer mwy ar ôl ein saib haeddiannol dros y Nadolig! Nadolig Llawen.**



*Well! What a busy term. At the beginning of the term we wrote letters to ourselves to open at the end of the year to see how much we change during a year – we're looking forward to opening these in the Summer. Our theme this term was Rights and we've been very busy learning about the rights different people have, including our rights as children in Wales. We learnt about the lack of rights of children in countries such as Sierra Leone, Syria a Lebanon and created and edited an appeal video for a charity as a result of this work. When learning about the lack of human and animal rights across the world, we decided to write a speech emulating Martin Luther King Jr's famous speech. Our work was outstanding! We thoroughly enjoyed our visit to Gilwern – the food was amazing and the activities provided an incredible challenge! Some of our favourite activities were climbing the climbing wall, orienteering and team building exercises. In our Science lessons we explored how much sugar was in our favourite snacks – we had such a shock! Some of our favourite tasks were experimenting with making our very own zip wires and making soundscapes depicting deforestation and racism. Our workshop about rainforests was fantastic – we learnt about the co-dependence of things that live there. We can't believe our last Christmas in Ysgol Gymraeg Ifor Hael has arrived – boohoo! We're looking forward to learning a lot more after our well-deserved break over Christmas!*